

Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gorffennaf 2020



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwr prosiect tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nick Selwyn ac roedd y tîm yn cynnwys Matt Brushett, Philippa Dixon, Steve Frank, Euros Lake a Robert Lloyd dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Negeseuon allweddol	6
Cysgu allan – y ffeithiau	9
Argymhellion	10
1 Nid yw nifer y bobl sy'n cysgu allan yn eang ei wasgariad, ond mae ganddynt anghenion cymhleth ac maent yn aml yn profi trawma	11
Mae gwir nifer y bobl sy'n cysgu allan yn anhysbys	12
Mae pobl sy'n cysgu allan yn marw 30 mlynedd yn iau na phobl ar gyfartaledd, yn dioddef trais drosodd a throsodd ac yn aml yn achosi troseddau	13
Mae achos sylfaenol cysgu allan yn gymhleth ac yn gofyn ymateb cydgysylltiedig hirdymor gan yr holl gyrff cyhoeddus	15
2 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru flaenoriaethu camau gweithredu i leihau problem cysgu allan, ond hyd yn ddiweddar roedd ymatebion strategol lleol yn canolbwyntio'n ormodol ar dai ac yn aml yn anwybyddu rôl partneriaid	18
Mae'r cyfrifoldeb statudol am fynd i'r afael â chysgu allan yn gorwedd gyda'r awdurdod tai lleol, ond mae angen i wasanaethau a sefydliadau eraill chwarae eu rhan	20
Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â phroblem cysgu allan rhaid wrth ymateb strategol cydgysylltiedig ac integredig, ond mae dulliau cyfredol wedi bod yn canolbwyntio'n ormodol ar dai ac nid cyfraniad yr holl gyrff cyhoeddus	21

3	Am ormod o amser nid yw gwasanaethau gweithredol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan wedi bod yn cael eu hintegreiddio a'u cydgysylltu ddigon	24
	Timau allgymorth stryd a gwasanaethau dydd yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl sy'n cysgu allan ac maent yn hollbwysig i symud pobl oddi ar y strydoedd, ond mae eu hargaeledd wastad wedi amrywio ledled Cymru	25
	Mae pobl sy'n cysgu allan wedi ei chael yn anodd cael mynediad at dai	27
	Mae cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a chydleoli gwasanaethau wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae partneriaid yn dal heb integreiddio gwasanaethau a'u gwneud yn fwy hyblyg i fynd i'r afael yn well â phroblem cysgu allan	31
	Gall 'Tai yn Gyntaf' fynd i'r afael yn well ag anghenion pobl sy'n cysgu allan, ac mae'n dechrau cael ei gyflwyno ledled Cymru	34
4	Mae arian yn cael ei wastraffu am fod cyrff cyhoeddus yn adweithio i gysgu allan yn hytrach na'i atal	35
5	Mae COVID-19 yn rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus newid yn sylfaenol y modd y maent yn cydweithio i fynd i'r afael â chysgu allan	40
Atodiadau		
1	Methodoleg yr Archwiliad	46
2	Cefnogi Gwelliant – Offeryn hunan-fyfyrion ar gyfer asesu pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth	47



Negeseuon allweddol

- 1 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n gynyddol yn wynebu datrys problemau polisi amlweddol a chymhleth. Mae rhai o'r materion hyn mor gymhleth fel ei bod wedi cael eu galw'n 'broblemau drwg', problemau sy'n eithriadol o wrthwynebus i gael eu datrys. Er mwyn datrys, neu o leiaf reoli, y materion hyn yn llwyddiannus, rhaid ailasesu rhai o'r ffyrdd traddodiadol o weithio a datrys problemau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae **Problem Ddrwg**¹ yn golygu problem gymhleth sy'n anodd neu'n amhosibl i'w datrys oherwydd gofynion anghyflawn, croes i'w gilydd, neu newidiol sy'n aml yn anodd i'w hadnabod. Nodweddir problemau drwg fel rhai sydd:

- â nifer o gyd-ddibyniaethau ac sy'n aml ag achosion lluosog.
- yn anarferol o gymhleth yn gymdeithasol, gan groesi ffiniau.
- prin yn gyfrifoldeb i unrhyw sefydliad unigol.
- yn cael eu nodweddu'n aml gan fethiannau polisi cronig.

Ni ellir mynd i'r afael â phroblemau drwg trwy ddulliau llinol (fesul sefydliad neu wasanaeth) traddodiadol gan bod sefydliadau a gwasanaethau wedi'u rhannu'n seilos 'fertigol' ac o ganlyniad ddim mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â materion 'llorweddol' ar draws y sector cyhoeddus cyfan.

- 2 Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau drwg mae'n rhaid meddwl mewn ffordd sy'n gallu deall y darlun ehangach, gan gynnwys y cyd-ddibyniaethau rhwng yr ystod lawn o ffactorau achosol sydd wrth eu gwraidd, a'r cyrff cyhoeddus a all ddylanwadu ar ymddygiad. Er mwyn mynd i'r afael yn llwyddiannus â phroblemau drwg rhaid hefyd wrth gydnabyddiaeth a dealltwriaeth eang nad oes unrhyw atebion cyflym a datrysiadau syml. Gan bod problemau drwg yn hanfodol anodd i'w datrys, mae mynd i'r afael â hwy hefyd yn gallu arwain at fethiant achlysurol polisïau neu angen i'w newid neu eu haddasu. Fodd bynnag, dyfal donc a dyr y garreg, gan bod parhau ag ymatebion polisi cyhoeddus sydd wedi methu'n creu perygl o barhau i wastraffu arian cyhoeddus.

1 H. W. J. Rittel ac M. M. Webber, Dilemmas in the General Theory of Planning, Prifysgol California (Berkley), 1973

Enghreifftiau o Broblemau Drwg:

- Cysgu allan
- Gordewdra
- Amddiffyn plant
- Gostwng cyfraddau ysmegu
- Y newid yn yr hinsawdd
- Diogelwch bwyd
- Atal cwympiadau
- Rheoli heintiau
- Hunanladdiad
- Gorfodi cyfraith cyffuriau
- Magu plant anodd
- Rhai Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant

- 3 Gan feddwl o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol i adnabod problemau drwg a helpu i ganolbwyntio'r ymateb y mae'i angen gan wasanaethau cyhoeddus ehangach i helpu i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth.
- 4 Felly, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau drwg mae'n rhaid wrth ddulliau ehangach, mwy cydweithredol, integredig ac arloesol gyda'r holl gyrff cyhoeddus yn addasu eu gwaith ac yn cyd-dynnu yn yr un cyfeiriad er lles pawb. Fodd bynnag, gall fod yn her cael 'ymrwymiad' gan bod angen i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar eu cyfraniad ehangach at fynd i'r afael â'r broblem gymhleth. Er y gall cyfraniad unrhyw gorff cyhoeddus penodol i ddatrys problem ddrwg ymddangos yn ymylol i'w waith craidd, mae'n aml yn hollbwysig i helpu partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth.

- 5 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i broblemau drwg ac yn mynd i'r afael â hwy gan ddefnyddio pobl yn cysgu allan fel deunydd olrhain². Rydym ni o'r farn mai hwn yw'r ffocws cywir ar gyfer ein gwaith am nad dim ond problem digartrefedd yw cysgu allan ac na ellir ei thrin felly. Yn rhy aml mae unigolion yn cael eu helpu oddi ar y strydoedd ac i mewn i lety dros dro, ond nid ydynt yn cael y cymorth y mae'i angen arnynt i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu digartrefedd cychwynnol ac maent yn aml yn diweddu yn yr un lle ag y dechreuon nhw. I roi diwedd ar gysgu allan, mae angen i ddatrysiadau fynd i'r afael ag anghenion o ran llety a chymorth ac mae angen i lawer o gyrff cyhoeddus – er enghraifft, cynghorau, yr Heddlu, cyrff iechyd, cymdeithasau tai, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac eraill – newid sut y maent yn gweithio a'r hyn y maent yn ei wneud i fynd i'r afael â chysgu allan. Fel byrddau amlasiantaeth statudol, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn sefyllfa dda i gydgysylltu a llywio'r newidiadau hyn trwy eu hasesiadau a chynlluniau llesiant.
- 6 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad bod ymateb i **COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â phroblem cysgu allan yn y gorffennol.**
- **Mae Rhan 1** o'r adroddiad yn nodi nifer y bobl sy'n cysgu allan a'r rhesymau pam eu bod wedi diweddu ar y strydoedd.
 - **Mae Rhan 2** yn bwrw golwg ar y sail statudol o ran sut y mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio i ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.
 - **Mae Rhan 3** yn dangos sut y mae'n rhaid i wasanaethau gweithredol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan gael eu hintegreiddio a'u cydgysylltu, ond bod hyn wedi bod yn wendid am nifer o flynyddoedd.
 - **Mae Rhan 4** o'r adroddiad yn dangos bod y ffordd draddodiadol o ymdrin â phobl yn cysgu allan yn gwastraffu arian am bod cyrff cyhoeddus yn adweithio i gysgu allan yn hytrach na'i atal.
 - Yn olaf, mae **Rhan 5** yn ystyried effaith COVID-19 sydd wedi rhoi cyfle i gyrff cyhoeddus newid yn sylfaenol y modd y maent yn cydweithio i fynd i'r afael â chysgu allan.
- 7 Mae **Atodiad 1** yn nodi ein dulliau archwilio.

2 Gwaith ail gam ein hadolygiad o weithio mewn partneriaeth yw hwn ac mae'n dilyn ein hadroddiad yn bwrw golwg ar Fyrdau Gwasanaethau Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019.

Cysgu allan – y ffeithiau

Nid oes unrhyw un yn gwybod faint o bobl sy'n cysgu allan yng Nghymru bob blwyddyn



2019

Roedd y cyfrif pythefnos ym mis Tachwedd 2019 yn amcangyfrif bod **405** o bobl yn cysgu allan ar yr adeg hon

Mae pobl sy'n cysgu allan yn marw **30 mlynedd yn iau** na phobl ar gyfartaledd

Y disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer dynion sy'n cysgu allan yw **47 mlwydd** ac ar gyfer menywod **43 mlwydd**



Yn ystod eu magwraeth...

Fe wnaeth **dwyrain o dair** o bobl sy'n cysgu allan brofi trais rhwng rhieni/gofalwyr

Roedd gan ychydig o dan **60%** bartner/gofalwr â phroblem cyffuriau neu alcohol

Mae tua **hanner** wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu'n gorfforol

Mae oddeutu **traean** wedi cael eu bwlio, wedi chwarae triwant neu wedi cael eu hatal dros dro, eu gwahardd neu eu diarddel o'r ysgol

Mae **chwarter** wedi cael eu cymryd i ofal cyngor fel plentyn neu berson ifanc

Cafodd **chwarter** eu magu mewn aelwyd heb waith a oedd yn byw ar fudd-daliadau lles

Dywedodd **15%** nad oeddent yn aml yn cael digon i'w fwyta bob dydd

Mae pobl sy'n cysgu allan bron i **17 gwaith** yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwr trais na'r cyhoedd yn gyffredinol

Rydym yn amcangyfrif bod pob cyfnod o gysgu allan yn costio **£53,082** i bwrs y wlad



Yn flynyddol mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario hyd at **£209 miliwn** yn adweithio i gysgu allan ond heb ei ddatrys



Mae cyrff y trydydd sector yn amcangyfrif, yn flynyddol, bod **2,900** yn cysgu allan bob blwyddyn yng Nghymru

Argymhellion

8 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i gyrrff cyhoeddus.

Argymhellion

Defnydd deallus o ddata

A1 Dylai cyrrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. **Rydym yn argymhell bod cynghorau a'u partneriaid:**

- yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a
- chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.

Gwasanaethau integredig i fynd i'r afael ag angen cymhleth

A2 Gan bod cyrrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. **Rydym yn argymhell bod cyrrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrio anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol (caiff yr offeryn ei nodi yn Atodiad 2).**



**Nid yw nifer y bobl sy'n
cysgu allan yn eang ei
wasgariad, ond mae
ganddynt anghenion
cymhleth ac maent yn
aml yn profi trawma**

01

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio cysgu allan fel a ganlyn....


Pobl sy'n cysgu dros nos yn yr awyr agored (megis o flaen drysau siopau, mewn cysgodfannau bysiau neu barciau) neu mewn adeiladau neu fannau eraill nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer anheddiad (megis grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio).

Mae gwir nifer y bobl sy'n cysgu allan yn anhysbys

- 1.1 Ni all unrhyw un sy'n cerdded strydoedd ein dinasoedd a'n trefi fethu â sylwi faint o bobl sy'n clwydo yn yr awyr agored, hyd yn oed ar nosweithiau oeraf y flwyddyn. Roedd y cyfrif blynyddol diweddaraf i gael ei gymryd ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019 yn amcangyfrif bod 405 o bobl yn cysgu allan³. Mae hyn yn gynydd o 17% o'i gymharu â'r un ymarfer yn 2018, ac yn gynydd o 69% ers 2015 – **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1 – cyfrif blynyddol o bobl sy'n cysgu allan fesul cyngor yng Nghymru

Mae nifer y bobl yr amcangyfrifir eu bod yn cysgu allan bob nos yn dal i godi.



Ffynhonnell: StatsCymru, [HOUS2101](#)

- 1.2 Mae'r cyfrif o'r bobl sy'n cysgu allan (er ei fod yn ddefnyddiol) yn cael ei gydnabod yn eang gan awdurdodau lleol a mudiadau'r trydydd sector fel mesur sy'n tangofnodi'r mater yn sylweddol, a dim ond darlun rhannol o faint tebygol y broblem o bobl sy'n cysgu allan mewn ffenestr o bythefnos y mae'n ei roi. Er enghraifft, cofnododd data a goladwyd gan [The Wallich](#) fod 2,878 o bobl yn cysgu allan yn 2017⁴ ledled Cymru. Ar lefel cynghorau, fe wnaeth [Canolfan Huggard](#)⁵ nodi bod 827 o bobl a oedd yn cysgu allan wedi defnyddio'u canolfan ddydd yng Nghaerdydd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019. Yn yr un modd, fe wnaeth Tîm Ymyriadau Pobl sy'n Cysgu Allan Abertawe a gydgysylltir gan The Wallich, gefnogi 323 o bobl a oedd yn cysgu allan yn Abertawe rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019. Adroddodd y BBC ym mis Chwefror 2020 fod y nifer o bobl sy'n cysgu allan yn Lloegr bum gwaith yn fwy na chofnodion swyddogol⁶.

Mae pobl sy'n cysgu allan yn marw 30 mlynedd yn iau na phobl ar gyfartaledd, yn dioddef trais drosodd a throsodd ac yn aml yn achosi troseddau

- 1.3 Mae data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁷ (ONS) yn amcangyfrif, ers 2017, bod marwolaethau ymhlith pobl sy'n cysgu allan yng Nghymru wedi codi 161%, gan gynyddu o 13 o farwolaethau yn 2017 i 34 o farwolaethau yn 2018. Y disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer dynion yw 47 mlwydd, ac ar gyfer menywod 43 mlwydd. Mae hyn yn cymharu â disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer y boblogaeth gyffredinol o 78.3 mlwydd ar gyfer dynion ac 82.3 mlwydd ar gyfer menywod⁸. Mae achosion hanner y marwolaethau hyn fwy neu lai yn ymwneud â thair prif broblem – camddefnyddio alcohol, camddefnyddio sylweddau a hunanladdiad.
- 1.4 Gall amgylchedd garw'r strydoedd a'r ffordd o fyw wrth gysgu allan, ynghyd â'r ffocws ar oroesi o ddydd i ddydd, yn gallu gwneud niwed mawr. Mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio ar nifer sylweddol o bobl sy'n cysgu allan. Nid yw ymdrin â phroblemau iechyd a gwneud y pethau sy'n angenrheidiol i ddod o hyd i lety'n cael eu hystyried yn bwysig gan y rhai â phroblem camddefnyddio sylweddau. Mae cyffuriau ac alcohol yn aml yn cael eu defnyddio i ddygydd â phoen emosiynol, feddyliol a chorfforol. Mae problemau iechyd meddwl ymhlith y rhai sy'n ddigartref ar y strydoedd yn gyffredin hefyd ac yn aml yn arwain at hunan-esgeuluso cyffredinol, diffyg maeth ac iechyd corfforol gwael.

4 Corff digartrefedd arbenigol sy'n gweithio ledled Cymru yw The Wallich. https://thewallich.com/app/uploads/2019/11/AnReport_2017.pdf

5 Elusen digartrefedd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd sy'n darparu llety, gwasanaethau dydd ac yn rhoi cymorth i bobl sy'n cysgu allan yn y brifddinas.

6 <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-51398425>

7 [Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr: 2018](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Hydref 2019.

8 [Tablau oes cenedlaethol, Y DU: 2016 i 2018](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Medi 2019

- 1.5 Gall bywyd ar y strydoedd fod yn beryglus iawn. Canfu ymchwil ddiweddar⁹ fod pobl sy'n cysgu allan yn fwy tebygol o fod yn ddiodefwr troseddau, a bron i 17 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais (yn y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â'r cyhoedd yn gyffredinol). Mae menywod yn arbennig o agored i niwed; mae bron i 1 ym mhob 4 wedi dioddef ymosodiad rhywiol tra'r oeddent yn cysgu allan. Mae dros hanner y rhai sy'n cysgu allan yng Nghymru wedi colli eiddo trwy ladrad a/neu maent wedi cael eu dychrynu neu eu bygwth â thrais neu rym; mae 40% wedi profi sefyllfaoedd lle cafodd pethau eu taflu atynt a/neu wedi profi grym neu drais; ac mae 10% wedi profi pobl yn gwneud dŵr am eu pennau.
- 1.6 Mae pobl sy'n cysgu allan hefyd yn gallu achosi peth wmbredd o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae data a ddelir gan Heddlu De Cymru ar gyfer chwarter cyntaf 2019-20 yn dangos eu bod wedi cael eu hysbysu am 4,182 o droseddau yng nghanol dinas Caerdydd. O'r rhain, roedd 2,382 yn dramgwyddau, a 441 yn rhai y nodwyd eu bod yn droseddau gyda llawer wedi'u hachosi gan bobl a oedd yn cysgu allan yng nghanol y ddinas. Mae plismona pobl sy'n cysgu allan yn her o ganlyniad.
- 1.7 Y prif bwerau a ddefnyddir gan yr Heddlu i ymdrin â phobl yn cysgu allan yw Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus a Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig. Mae'r rhain yn gwahardd rhag gwneud pethau penodedig mewn ardal gyfyngedig a/neu'n ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau penodedig yn yr ardal honno wneud pethau penodedig; er enghraifft, peidio â chardota neu yfed alcohol. Ledled y DU, mae rhai Heddluoedd hefyd wedi defnyddio pwerau dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014, a hefyd Deddf Crwydradaeth 1824, i fynd i'r afael â phroblemau gyda throseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol a chardota. Mae defnydd o'r olaf o'r rhain wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf am ei fod yn aml yn diweddu â phobl yn cael dirwyon nad ydynt yn gallu fforddio eu talu neu'n cael eu hanfon i'r carchar, nad yw ond yn gwaethygu eu problemau.

9 Rough sleepers' experiences of violence and abuse on the streets of England and Wales, Crisis, Rhagfyr 2016

Mae achos sylfaenol cysgu allan yn gymhleth ac yn gofyn ymateb cydgysylltiedig hirdymor gan yr holl gyrff cyhoeddus

- 1.8 Ceir achosion niferus pam fod pobl yn cysgu allan. Mae'r union gyfuniad o resymau sy'n achosi i bob unigolyn gysgu allan mor unigryw â'r unigolyn ei hun. Fodd bynnag, gellir adnabod rhai ffactorau cyffredin: tor perthynas, tlodi, diweithdra, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, cam-drin rhywiol neu gorfforol ac anallu o ganlyniad i ymdopi mewn tai annibynnol. Po fwyaf cymhleth yw anghenion rhywun a pho fwyaf o drawma y mae wedi'i brofi, po fwyaf o gymorth y bydd ei angen ar yr unigolyn i symud ymlaen o ddigartrefedd ac ailadeiladu ei fywyd. Caiff profiadau trawmatig cyn bod pobl yn 18 oed sy'n arwain at broblemau emosiynol a chorfforol gydol oes mor negyddol eu galw'n gyffredin yn 'Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' (ACEs).
- 1.9 Trwy ein hymchwil gyda phobl sy'n cysgu allan, canfuom rai anfanteision neu niweidiau cyffredin sydd wedi cyfrannu at wneud iddynt ddiweddu'n cysgu ar y strydoedd. Mae'r profiadau niweidiol hyn yn ystod plentyndod yn aml wedi'u cydblethu â phobl yn fynych yn profi nifer o anfanteision sy'n dylanwadu'n sylweddol ar broblemau ac yn cyfrannu'n sylweddol at broblemau yn ddiweddarach yn eu hoes. Rydym wedi adrodd mewn mwy o fanylder ar ein hymchwil yn ein hofferyn data ar gysgu allan ac rydym yn crynhoi ein casgliadau allweddol yn **Arddangosyn 2** isod.

Arddangosyn 2 – mae pobl sy'n cysgu allan wedi cael 'Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod'

Dengys ein hymchwil fod pobl sy'n cysgu allan yn ddiweddarach yn eu hoes yn aml wedi...



profi trais domestig a/neu rywiol yn y teulu neu'r aelwyd – roedd dwy ran o dair wedi profi trais rhwng rhieni/gofalwyr yn ystod eu magwraeth.



profi problem camddefnyddio sylweddau yn y teulu neu'r aelwyd – roedd gan ychydig o dan 60% riant/gofalwr â phroblem cyffuriau neu alcohol.



cael eu cam-drin gartref gan aelod o'r teulu neu'r aelwyd – amlygodd tua hanner yr ymatebwyr eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu'n gorfforol.



cael anawsterau yn yr ysgol – roedd rhyw draean wedi cael eu bwlio yn yr ysgol, wedi chwarae triwant o'r ysgol neu wedi cael eu hatal dros dro, eu gwahardd neu eu diarddel o'r ysgol.



bod mewn gofal – roedd chwarter wedi cael eu cymryd i mewn i ofal cyngor pan oeddent yn blentyn neu berson ifanc oherwydd y risgiau pe baent wedi aros gartref.



byw mewn tldi o oedran ifanc – roedd chwarter wedi cael eu magu mewn aelwyd heb waith a oedd yn byw ar fudd-daliadau lles a dywedodd 15% eu bod yn aml heb ddigon i'w fwyta bob dydd.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg Pobl sy'n Cysgu Allan, Ionawr 2020.

1.10 Mae ein dadansoddiad o ddata StatsCymru yn dangos bod dangosyddion arwyddocaol Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod, ac felly achosion posibl o gysgu allan, yn dal i godi. Er enghraifft, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd yng ngofal cynghorau wedi codi 46% yn y degawd diwethaf, ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd mewn gofal maeth wedi codi 40%. Yn yr un modd, mae gwaharddiadau parhaol o ysgolion wedi codi 91% ledled Cymru yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae'r rhain i gyd yn fesuryddion pwysig ar gyfer pobl a allai fod yn cysgu allan ac yn amlygu her mynd i'r afael ag anghenion cymhleth yn awr ac yn y dyfodol. Er ein bod wedi adnabod y dangosyddion risg posibl hyn fel rhan o'n hastudiaeth, yn ystod ein gwaith maes ni chanfuom yr un awdurdod (yn lleol, yn rhanbarthol nac yn genedlaethol) sy'n casglu ac yn defnyddio data yn y ffordd yma i ganolbwyntio ar atal.

- 1.11 Mae pobl sy'n profi'r anfanteision hyn yn gynnar yn eu bywydau hefyd yn anghymesur yn wynebu mwy o risg o lawer o broblemau yn ystod eu bywydau fel oedolion. Er enghraifft, canfuom fod 55% o'r rhai yr arolygom ni wedi profi problemau camddefnyddio sylweddau yn ddiweddarach yn eu hoes. Roedd ychydig dros chwarter wedi cael eu troi allan neu wedi gorfod ildio meddiant ar eu cartref, ac roedd cyfran debyg wedi profi cyfnodau mynych a maith o ddiweithdra, colli swydd a phroblemau ariannol parhaus. Mae un rhan o bump wedi bod yn y carchar neu mewn sefydliad troseddwr ifanc, a 15% wedi cael eu cyhuddo o drosedd treisgar. Roedd asiantaeth atgyfeirio arbenigol, darparwyr cymorth a staff y gwasanaeth prawf y cyfwelom ni â hwy yn cydnabod, unwaith y mae rhywun wedi bod yn y carchar, eu bod yn fwy tebygol o ddiweddu ar y strydoedd am nad yw'r llwybr cyfredol i reoli'r broses o ryddhau carcharorion yn gweithio'n effeithiol.
- 1.12 Pan fo plant yn cael profiadau niweidiol ac ingol, gall gael effaith barhaus ar ddysgu, eu gallu i feddwl, a sut y maent yn rhyngweithio ag eraill. Mae pobl sy'n cael nifer o Brofiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod yn aml yn debygol o fagu eu plant eu hunain mewn aelwydydd lle mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy cyffredin. Gall y cylch hwn o adfyd yn ystod plentyndod gloi cenedlaethau o deuluoedd mewn afiechyd, tlodi ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Felly, bydd atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn un genhedlaeth, neu leihau eu heffeithiau, yn cael effaith gadarnhaol ar gysgu allan a bydd yn dwyn arbedion ariannol sylweddol i wasanaethau cyhoeddus sydd dan bwysau. Bydd y math hwn o ddull ataliol yn galw am newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i fynd i'r afael â 'phroblemau drwg'.

**Fe wnaeth Llywodraeth
Cymru flaenoriaethu
camau gweithredu
i leihau cysgu allan,
ond hyd yn ddiweddar
roedd ymatebion
strategol lleol yn
canolbwyntio'n
ormodol ar dai ac yn
aml yn anwybyddu
rôl partneriaid**

02

- 2.1 Ym mis Chwefror 2018 mabwysiadodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu dwy flynedd¹⁰ i flaenoriaethu gwaith ar fynd i'r afael â phroblem cysgu allan, yn dilyn y cynnydd diweddar mewn niferoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn crynhoi ei blaenoriaeth fel: 'lleihau cysgu allan a rhoi diwedd ar yr angen i bobl gysgu allan'. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid wrth ymrwymiad nid dim ond gan wasanaethau tai cynghorau ond ystod eang o sefydliadau a sectorau eraill; gofal cymdeithasol, gofal iechyd, a darparwyr gwasanaethau cymorth. Datblygwyd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu allan ac roedd yn nodi 24 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn mis Ionawr 2020.
- 2.2 Nid yw'r Cynllun Gweithredu ar Gysgu Allan wedi cyflawni'r newid yr oedd ei angen ac mae mwy o ymdrechion wedi cael eu gwneud yn ddiweddar i sefydlu grŵp arbenigol ar gyfer y sector – y Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ddigartrefedd. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Grŵp Gweinidogol ei adroddiad Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion mewn pedair 'ardal â ffocws' – Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam – lle mae angen i gyrff cyhoeddus fod â digon o weithwyr allgymorth grymusol sydd wedi'u hyfforddi'n dda, llety argyfwng a thros dro priodol ar gael fel dewisiadau yn lle cysgu allan a chynyddu nifer y cartrefi cymdeithasol i'w gosod i aelwydydd digartref.
- 2.3 Er mwyn cyflawni'r argymhellion hyn mae'n rhaid wrth gytundeb ac ymrwymiad gan gynghorau a'u partneriaid i gydweithio. Yr hyn sy'n allweddol i roi'r argymhellion ar waith yn llwyddiannus yw blaenoriaethu a darparu adnoddau ar gyfer cyfres o gamau gweithredu byrdymor, a darparu gwasanaethau trwy drefniadau gweithio amlasiantaeth gyda chamau gweithredu i gael eu cymryd cyn gwanwyn 2020. Hefyd, ceir wyth argymhelliad tymor hwy pellach i gynghorau eu mabwysiadu. Nid oes unrhyw ddyddiadau targed wedi cael eu pennu ar gyfer yr argymhellion hyn.
- 2.4 Mae'r rhaglen waith arfaethedig yn uchelgeisiol iawn ac yn gofyn ymrwymiad gan lawer o bartneriaid i neilltuo adnoddau, newid arferion gweithio, a llacio'r modd y cymhwysir dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol. O'n gwaith maes yng ngaeaf 2019-20, roedd ymrwymiad gan yr ystod o bartneriaid sy'n hollbwysig i roi'r argymhellion ar waith yn eisiau. Roedd ymwybyddiaeth o adroddiad y Grŵp Gweinidogol, a'i flaenoriaethau ar gyfer gweithredu, yn anhysbys gan mwyaf y tu allan i gyrff tai. Fe argymhellodd yr adroddiad raglen gyflawni fyrdymor iawn o chwe mis ar gyfer rhai newidiadau sylweddol ac arwyddocaol.

10 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynllun-gweithredu-cysgu-allan.pdf>

Mae'r cyfrifoldeb statudol am fynd i'r afael â chysgu allan yn gorwedd gyda'r awdurdod tai lleol, ond mae angen i wasanaethau a sefydliadau eraill chwarae eu rhan

- 2.5 Trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014, fe wnaeth Llywodraeth Cymru newid dyletswyddau cynghorau tuag at bobl ddigartref yn sylfaenol. Ers mis Ebrill 2016 mae'n ofynnol i gynghorau roi cyngor a chynhorthwy i bawb, pa un a ydynt yn ddigartref ai peidio, a rhaid iddynt geisio atal digartrefedd rhag digwydd lle y bo'n bosibl. Mae'r fframwaith statudol yn seiliedig ar gydweithio hynod ddatblygedig rhwng cynghorau a'u partneriaid i gyflawni ei amcanion o ran ymyrryd a rhoi cynhorthwy'n gynnar i ddod o hyd i'r datrysiad gorau sydd ar gael mor gyflym â phosibl.
- 2.6 Lle mae gan rywun angen blaenoriaethau ac nad yw'n fwriadol ddigartref, rhaid i'r awdurdod dderbyn y ddyletswydd i gartrefu'r unigolyn hwnnw os oes gan yr unigolyn gysylltiad lleol. Os nad oes gan yr unigolyn gysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod, gall yr awdurdod atgyfeirio'r cais at awdurdod lle mae gan yr unigolyn gysylltiad lleol. Efallai y bydd gan rywun gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol os yw'r unigolyn yn byw neu wedi byw yno, yn gweithio yn yr ardal, oherwydd rhesymau teuluol neu oherwydd amgylchiadau arbennig. Yn ymarferol, mae rhai cynghorau'n ceisio ailgysylltu pobl sy'n cysgu allan ag ardaloedd eraill y maent o bosibl wedi byw ynddynt, tra nad yw eraill yn cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol. Nid yw pobl sy'n cysgu allan yn gymwys yn awtomatig fel rhai ag angen blaenoriaethol.
- 2.7 Yn bwysig, mae Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i gydweithio i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae'r ddyletswydd i gydweithio'n berthnasol i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol a chymdeithasau tai, ond yn bwysig nid yw'n cynnwys cyrff ieched yng Nghymru na sefydliad cyfiawnder troseddol (gan gynnwys yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol). Mae hyn yn golygu na ellir ei gwneud yn ofynnol i'r partneriaid allweddol hyn helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Y rhagdybiaeth yw y bydd cymdeithasau tai a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio oni bai bod y cam gweithredu arfaethedig yn anghydnaws â'u dyletswyddau. Byddai'n rhaid rhoi eu rhesymau'n ysgrifenedig ac ni fyddai'n ddigonol dweud bod blaenoriaethau eraill yr oedd rhaid rhoi ffafriaeth iddynt. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r sefydliadau partner hyn, fel man cychwyn, gydweithio i gwrdd â chais am gynhorthwy. Bydd disgwyl i wasanaethau digartrefedd cynghorau, cymdeithasau tai a gwasanaethau cymdeithasol fod â mecanweithiau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer sicrhau cydweithio a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle ceir anhawster.

Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â phroblem cysgu allan rhaid wrth ymateb strategol cydgysylltiedig ac integredig, ond mae dulliau cyfredol wedi bod yn canolbwyntio'n ormodol ar dai ac nid cyfraniad yr holl gyrff cyhoeddus

- 2.8 Mae Adran 50 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i gynnal adolygiad o ddigartrefedd a llunio strategaeth ddigartrefedd. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fod wedi cyflwyno strategaeth ers 2018, ac mae angen i hon gael ei diweddarau bob pedair blynedd. Yn bwysig, gall strategaeth ddigartrefedd gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chymau gweithredu penodol y mae'r cyngor yn disgwyl iddynt gael eu cymryd gan unrhyw awdurdod cyhoeddus neu fudiad gwirfoddol a all helpu i gyflawni ei blaenoriaethau¹¹. Yn ychwanegol at y dyletswyddau penodol o ran digartrefedd, rhaid i gynghorau a'u partneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus hefyd, trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol, flaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol penodol yn eu hardal trwy bennu amcanion llesiant priodol.
- 2.9 Canfuom fod y dull strategol a ddefnyddir gan gynghorau a'u partneriaid i fynd i'r afael â phroblem cysgu allan mewn ymateb i'r Ddeddf yn amrywio'n eang. Ac eithrio Caerdydd, nid oedd cysgu allan yn cael ei grybwyll yn benodol mewn cynlluniau llesiant, ond roedd yn cael ei gynnwys mewn themâu ehangach fel diogelwch cymunedol, tlodi, digartrefedd a mynd i'r afael ag anghenion cymhleth. Er enghraifft, mae gan Gynllun Llesiant Lleol Abertawe bedair thema graidd, y mae un ohonynt yn ymwneud â chymunedau cryf gydag ystod o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, gan gynnwys bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu cymunedau. Yn yr un modd, mae Cynllun Llesiant Wrecsam yn cynnwys 15 o amcanion, y mae nifer ohonynt yn ymwneud â thai, diogelwch cymunedol a chymorth i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth.

11 Fodd bynnag, mae Adran 52 (4) yn nodi bod rhaid cael cymeradwyaeth y corff neu'r unigolyn dan sylw i gynnwys unrhyw ddarpariaeth o ran cam gweithredu mewn strategaeth ddigartrefedd.

- 2.10 Fe wnaeth yr holl gynghorau naill ai fabwysiadu strategaeth ddigartrefedd benodol ar lefel yr awdurdod neu weithio ar y cyd i ddatblygu ymateb rhanbarthol. Dim ond 12 o'r 22 o strategaethau sy'n cynnwys blaenoriaethau i fynd i'r afael â phroblem cysgu allan – er enghraifft mae Strategaeth Ddigartrefedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2018 yn cynnwys camau gweithredu strategol penodol ar gyfer mynd i'r afael â chysgu allan. Fe gwblhaodd y pum cyngor yng Ngwent adolygiad o ddigartrefedd ar y cyd ac fe gynhyrchon nhw Strategaeth Ddigartrefedd ar gyfer Gwent gyfan sy'n rhychwantu'r cyfnod o 2018 – 2022¹². Mae'r strategaeth yn cynnwys amcanion i 'leihau nifer y 'rhai sy'n dod i sylw dro ar ôl tro' a chysgu allan', ac mae'r cynllun gweithredu rhanbarthol yn cynnwys pedwar cam gweithredu i fynd i'r afael â'r amcan strategol hwn y mae'n rhaid eu cyflawni rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2021. Yng Nghaerdydd ceir Strategaeth Pobl sy'n Cysgu Allan benodol hefyd a fabwysiadwyd yn 2017.
- 2.11 Canfu ein hadolygiad ni o strategaethau rai gwendidau cyffredin o ran cysgu allan. Mae swmp y camau gweithredu'n canolbwyntio ar sefydliadau tai a mudiadau cymorth y trydydd sector, gyda gwasanaethau a phartneriaid allweddol eraill yn aml yn peidio â chael eu cynnwys mewn gwaith datblygu. O ganlyniad, mae strategaethau'n canolbwyntio ormod ar faterion tai ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i rôl a chyfraniad yr holl gyrff cyhoeddus. Yn yr un modd, mae camau gweithredu'n canolbwyntio ar ddeall cysgu allan yn well neu adolygu gwasanaethau, yn hytrach na chamau pendant i fynd i'r afael â phroblem cysgu allan.
- 2.12 Mae gan yr holl gynghorau ystod o fforymau partneriaeth strategol i roi cymorth i fynd i'r afael â digartrefedd, cysgu allan a materion diogelwch cymunedol. Yn aml ceir fforymau lluosog â rolau a chylchoedd gwaith ychydig yn wahanol sy'n gweithredu yn ardal yr un awdurdod. Er enghraifft, mae gan Abertawe dri fforwm allweddol: Grŵp Cyflawni ar Ddigartrefedd, Pwyllgor Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) Pobl Agored i Niwed ar y Strydoedd a Fforwm Cefnogi Pobl a Digartrefedd.

12 Er bod un adolygiad o ddigartrefedd a nodau ac amcanion strategol y cytunwyd arnynt, mae pob cyngor – [Blaenau Gwent](#), [Caerffili](#), [Sir Fynwy](#), [Casnewydd](#) a [Thorfaen](#) – wedi mabwysiadu fersiwn wedi'i deilwra o'r strategaeth ranbarthol gyda chamau gweithredu penodol ar gyfer eu hardal hwy.

- 2.13 Er bod y rhai a oedd yn rhan o'r gwaith yn teimlo ar y cyfan bod y strwythurau partneriaeth cywir yn eu lle gyda'r bobl gywir gan mwyaf yn mynychu cyfarfodydd, roedd llawer yn cydnabod nad yw'r amryw fforymau partneriaeth wedi'u cydgysylltu'n effeithiol a'u bod yn canolbwyntio'n ormodol ar gynllunio a dim digon ar wneud. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r dull traddodiadol a llinol o lunio polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi bod yn ymateb annigonol i drechu problemau drwg. Er enghraifft, mae BGCau ar y cyfan wedi dilyn ffyrdd traddodiadol o weithio ac maent yn parhau i wneud yr hyn y maent wastad wedi'i wneud gan wneud yr un camgymeriadau â strwythurau partneriaeth a'u rhagflaenodd megis Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) – asesu anghenion, cytuno ar amcanion, paratoi cynllun a chreu saernïaeth llywodraethu.
- 2.14 Isod rydym yn archwilio mewn mwy o fanylder sut y mae gwasanaethau ar lawr gwlad yn ymateb i gysgu allan.

**Am ormod o amser
nid yw gwasanaethau
gweithredol ar gyfer
pobl sy'n cysgu allan
wedi bod yn cael eu
hintegreiddio a'u
cydgysylltu ddigon**

03

Timau allgymorth stryd a gwasanaethau dydd yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl sy'n cysgu allan ac maent yn hollbwysig i symud pobl oddi ar y strydoedd, ond mae eu hargaeledd wastad wedi amrywio ledled Cymru

- 3.1 Ffordd o drefnu a darparu gwasanaethau trwy dîm arbenigol i roi cymorth a thriniaeth dwys, hynod gydgyssylltiedig a hyblyg i bobl ag anghenion cymhleth, sy'n aml yn byw dan amgylchiadau anodd ac anhrefnus yw Allgymorth Grymusol. Mae Allgymorth Grymusol yn canolbwyntio ar bobl y mae gwasanaethau prif ffrwd wedi'i chael yn anodd ymgysylltu â hwy, ac y mae eu hanesion yn cynnwys afiechyd meddwl difrifol a pharhaus, anhrefn gymdeithasol, defnydd uchel o welyau i gleifion mewnol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac anghenion cymhleth lluosog.
- 3.2 Ystyrir bod allgymorth grymusol yn hanfodol i fynd i'r afael â chysgu allan ac mae'n galw am ymrwymiad gan ystod eang o gyrff cyhoeddus i fod yn effeithiol. Er mwyn iddo fod yn effeithiol rhaid i dimau aml-sgil ac amlddisgyblaethol roi cymysgedd o ymyriadau seicogymdeithasol a chymorth ymarferol dwys sy'n canolbwyntio ar ymgysylltiad a pherthynas dros y tymor hir. Yn hollbwysig, mae ei lwyddiant yn ddibynnol ar gydweithio ac integreiddio ymatebion ar ffurf gwasanaethau rhwng yr holl wasanaethau allweddol – iechyd, gofal cymdeithasol, tai, yr Heddlu, cymdeithasau tai a'r trydydd sector.
- 3.3 Mae gwasanaethau dydd yn darparu rhywle i bobl sy'n cysgu allan fynd yn y dydd i gael help gydag anghenion sylfaenol megis bwyd, dillad a golchi. Mae rhai canolfannau'n rhoi cynhorthwy ymarferol arall. Er enghraifft, mynediad at gyfrifiaduron, rhywle i gadw eiddo, a lle i dderbyn post. Gallant hefyd roi gofal meddygol (gan gynnwys gwasanaethau cymorth cyffuriau ac alcohol) a mynediad at feddygon a deintyddion. Mae canolfannau dydd yn cael eu rhedeg gan fudiadau gwirfoddol lleol a dim ond mewn dinasoedd a threfi mwy yng Nghymru y maent i'w cael. Heb y mathau hyn o wasanaethau, mae pobl sy'n cysgu allan yn cael eu gadael ar y strydoedd sy'n gallu peri iddynt gardota, cyflawni mân droseddau, camddefnyddio sylweddau ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol, a hefyd eu gadael yn dueddol o brofi trais neu niwed.

- 3.4 Caerdydd sydd â'r ddarpariaeth orau o ran ystod o wasanaethau dydd, sy'n adlewyrchu'r niferoedd uwch o bobl sy'n cysgu allan yn y brifddinas trwy ei Dîm Allgymorth dynodedig sy'n canfod pobl sy'n cysgu allan ac yn eu hannog i fynd i mewn i lety. Mae gwasanaethau'r trydydd sector yn cynnwys gwasanaeth dosbarthu brechwast beunyddiol a gydgysylltir gan The Wallich sy'n rhoi brechwast, diodydd poeth, sachau cysgu, dillad cynnes ac offer ymolchi i bobl ar y strydoedd. Mae Tîm Allgymorth y Cyngor yn mynd gyda'r gwasanaeth dosbarthu brechwast gan gynnig cyngor ac ymgysylltu â'r bobl sy'n cysgu allan. Mae Prosiect Bws Byddin yr Iachawdwriaeth yn gweithredu bum noson yr wythnos (heb gynnwys penwythnosau) gan ddarparu bwyd twym, dillad a lloches gynnes i bobl am ychydig oriau. Yn unigryw yng Nghymru, mae gan Gaerdydd hefyd Ganolfan Huggard, sef canolfan ddydd sydd ar agor trwy gydol y flwyddyn lle gall pobl sy'n cysgu allan fynd a defnyddio cyfleusterau cael cawod, a chael dillad, bwyd ac offer ymolchi. Mae'r Huggard hefyd yn darparu gwasanaethau eirioli a chymorth i helpu pobl, gan gynnwys gwasanaeth camdefnyddio sylweddau pwrpasol a rhaglen cyfnewid nodwyddau.
- 3.1 Mae gan Abertawe Dîm Ymyrryd ar gyfer Pobl Sy'n Cysgu Allan a gydgysylltir gan The Wallich, Pwynt Mynediad a gaiff ei redeg o hostel Dinas Fechan sy'n rhoi cymorth a chynhorthwy ymarferol i bobl ar y strydoedd, a Zacs place sef caffi eglwys gan wirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ar y strydoedd yng Nghanol y Ddinas. Mae gan Wrecsam rai gwasanaethau dydd ar gyfer pobl sy'n cysgu allan a chynhelir y rhan fwyaf o weithgarwch trwy sesiwn galw heibio ar fore dydd Gwener¹³. Mae'r Hwb Gofal Cymunedol, sy'n seiliedig ar fenter gynharach gan yr awdurdod lleol a'r Heddlu, yn rhoi help a chefnogaeth i bobl sy'n cysgu allan. Mae rhai gwasanaethau statudol yn mynychu, ac mae'r sesiynau galw heibio wythnosol yn rhoi mynediad rhwyddach i bobl ddigartref a'r rhai sy'n cysgu allan yn Wrecsam at ystod o wasanaethau cymorth.
- 3.2 Mae gwasanaethau dydd yn aml yn gweithio gyda phobl sy'n wynebu'r siwrne anoddaf o'r stryd i fyw'n annibynnol. Mae gan gyfran fawr o'u cleientiaid anghenion cymorth uchel iawn ac nid ydynt yn barod neu'n gallu ymgysylltu â gwasanaethau eraill. Gall llawer o'r bobl sy'n gweithio ynddynt fod yn wirfoddolwyr hefyd. Mae'r swm o arian y mae ei angen i ddarparu'r mathau hyn o wasanaethau dydd yn fach iawn, ond maent yn aml yn cael cymhorthdal ac yn dibynnu ar elusengarwch i gynnal y ddarpariaeth. Mae llawer o'r rhai yr ymwelom ni â hwy hefyd yn rhedeg â diffygion gyda'r costau'n cael eu hamsugno gan y trydydd sector ac maent yn wynebu risg barhaus y bydd eu cyllid yn cael ei atal.

13 Sefydlwyd y gwasanaeth hwn gan yr awdurdod lleol a'r Heddlu'n wreiddiol ond fe'i cydgysylltir gan gyrrff y sector gwirfoddol.

Mae pobl sy'n cysgu allan wedi ei chael yn anodd cael mynediad at dai

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r defnydd o Lety Argyfwng wedi tyfu, ond nid yw wastad wedi bod yn addas i bobl ag anghenion cymhleth

- 3.3 Mae gan bobl sy'n cysgu allan angen dybryd am lety a lloches. Fel cam cyntaf, gall llety argyfwng saff a diogel helpu i symud pobl oddi ar y strydoedd. Yn y pedair blynedd a hanner ddiwethaf (rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2019) fe gynyddodd nifer y bobl sy'n cael mynediad at dai argyfwng fwy nag un rhan o bump ac roedd 2,307 o aelwydydd mewn llety dros dro – hostelau, gosodiadau preifat a gwely a brecwast – ar ddiwedd mis Medi 2019, er nad oes gwybodaeth i ddynodi faint o'r rhain a oedd yn cysgu allan cyn hynny¹⁴.
- 3.4 Mae hostelau'n amrywio o ran eu maint (rydym wedi gweld hostelau sy'n amrywio rhwng 10 o leoedd gwely i rai eraill ag ychydig o dan 100) ac nid oes gan bob cyngor fynediad at hostel. Mae gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan gynghorau'n cael eu rheoli gan y priod awdurdod sy'n penderfynu pwy sy'n mynd i ble. Fodd bynnag, mae llawer o hostelau'n eiddo i gyrff yn y trydydd sector ac yn cael eu rheoli gan y rhain a gall cynghorau fod yn dylanwadu ar y rhain i raddau amrywiol o ran sut y cânt eu gosod a'u rheoli. Er enghraifft, ceir un llwybr mynediad canolog yng Nghaerdydd – y 'Porth' – a'r Cyngor sy'n penderfynu i ble y mae unigolion yn mynd. Er bod gan y darparwr lai o reolaeth ar bwy sy'n cael mynediad at eu llety dan y Porth, mae'r system yn amcanu at sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael mynediad at lety.
- 3.5 Mae rhannu data, sy'n hanfodol i wneud penderfyniadau diogel am unigolion, yn dilyn Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) sy'n helpu sefydliadau i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu data. Fodd bynnag, nid yw darparwyr yn y trydydd sector wastad wedi cael atgyfeiriadau priodol gan gynghorau gyda gwybodaeth yn aml yn anghyflawn neu'n anghywir, sy'n cynyddu risgiau i hostelau. O ganlyniad, mae ymarferion casglu data ac asesu risg yn aml yn cael eu hailadrodd. Canfu ein gwaith arolwg gyda phobl sy'n cysgu allan fod pobl yn aml yn gorfod rhoi'r un wybodaeth bersonol sawl gwaith i wahanol gyrff cyhoeddus, gan greu straen a diffyg ymddiriedaeth o ran pa mor ddifrifol yw cyrff cyhoeddus ynglŷn ag ymdrin â'u hanghenion.

- 3.6 Er y cydnabyddir bod hostelau'n gam cyntaf pwysig i symud pobl i amgylchedd mwy saff a mwy diogel, maent yn wynebu ystod o heriau. O ran eu natur, mae gan hostelau grynodiad o bobl ag anghenion cymhleth a bywydau anhrefnus, sy'n aml yn rhannu cyfleusterau fel ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Gallant fod yn amgylcheddau anodd iawn i fyw ynddynt ac i'w rheoli. Maent hefyd yn gyfleusterau a nodweddir gan ddefnydd uchel a throsiant rheolaidd. O ganlyniad, gall fod yn anodd cynnal cyflwr adeiladau a chyfleusterau, ac mae rhai mewn cyflwr gwael iawn.
- 3.7 Mae rhai hostelau, fel Lloches Nos The Wallich yng Nghaerdydd, hefyd yn gweithredu â diffyg ac yn wynebu risg o gau. Mae gan eraill gytundebau rheoli rhwng y landlord (cymdeithas dai'n fwyaf nodweddiadol) ac asiantau rheoli (darparwr cymorth arbenigol yn y trydydd sector fel arfer). Mae angen i gytundebau fod yn hyblyg ac osgoi cyfyngiadau ar bwy ellir eu cartrefu a'r math o wasanaethau y gellir eu darparu os yw gweithwyr cymorth yn mynd i fod yn ymdrin â phobl ag anghenion cymhleth. Gall ansicrwydd ariannol a diffyg hyblygrwydd effeithio'n ddifrifol ar allu darparwr cymorth i ymdrin â phobl mewn trawma.
- 3.8 Cydnabyddir bod hostelau'n cyflawni rôl bwysig o ran helpu mynd i'r afael â chysgu allan, ond gallant fod yn anaddas ar gyfer gwedd newidiol digartrefedd. Gall llety hostel mawr waethygu'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu, a hefyd creu anawsterau i bobl eraill sy'n byw yn y prosiect. Maent yn arbennig o frawychus i bobl sy'n newydd i fywyd ar y strydoedd. Gallant gael effaith niweidiol ar iechyd meddwl, hapusrwydd a llesiant cyffredinol pobl i'r graddau bod rhai o'r farn bod cysgu ar y stryd yn opsiwn mwy diogel a gwell na hostel.
- 3.9 Ystyrir mai llety gwely a brecwast yw'r dewis olaf – mae'n ddrud, yn aml o ansawdd gwael ac nid oes rheolaeth na phresenoldeb ar y safle. Dengys data gan StatsCymru nad yw rhai cynghorau'n defnyddio gwely a brecwast, ond i rai dyma'r prif fath o ddarpariaeth¹⁵. Canfuom fod rhai cynghorau'n defnyddio gwely a brecwast i gartrefu cleientiaid anodd i'w rheoli, tra bo cynghorau eraill yn lleoli pobl ddigartref sengl agored i niwed 'y tu allan i'r sir'.
- 3.10 Yn yr amgylchiadau hyn, nid yw'r person digartref, sy'n cael ei gynorthwyo dim ond am ei fod yn agored i niwed, yn cael ei gefnogi ac mae disgwyl iddynt ymdopi ar eu pen eu hunain mewn lle nad ydynt yn gyfarwydd ag ef, a heb rwydwaith o deulu a ffrindiau i alw arnynt am gymorth. Canfuom nad yw cynghorau sy'n derbyn wastad yn cael eu hysbysu ynghylch lleoliad gan gyngor arall yn eu hardal ac anaml y mae systemau ar waith i reoli lleoliadau a'u risg bosibl ar y cyd. Mae defnydd o leoliadau y tu allan i'r sir hefyd yn gallu achosi i gostau gwely a brecwast gynyddu am bod y galw'n tyfu.

15 StatsCymru, [Aelwydydd y daethpwyd o hyd i lety dros dro iddynt yn ôl y math o lety a'r math o aelwyd](#)

3.11 Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y bobl ddigartref a leolir gan gynghorau mewn cartrefi preifat ar rent wedi tyfu i oddeutu traean o'r holl osodiadau argyfwng. Er bod hyn wedi galluogi cynghorau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae defnydd cynyddol o osodiadau preifat yn dwyn rhai heriau. Mae rhenti'n parhau i dyfu, yn aml uwchlaw lefel y Lwfans Tai Lleol¹⁶, ac o ganlyniad nid yw'r Credyd Cynhwysol yn ddigon i'w talu'n llawn. Os yw'r hawlydd wedi cael sancsiwn, neu wedi tynnu taliadau caledi i lawr, yna maent yn aml yn methu â fforddio'r eiddo heb fondiau a thaliadau atal gan gynghorau. Mae cystadleuaeth am gartrefi rhent preifat yn uchel hefyd ac nid yw'n beth anarferol gweld cyrff yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn mynd ar drywydd yr un eiddo. Er enghraifft, yng Nghaerdydd ceir cystadleuaeth ar hyn o bryd rhwng cymdeithasau tai, y trydydd sector a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am gartrefi preifat ar rent. Ac am bod landlordiaid yn aml yn gallu cael adenillion gwell trwy osod i fyfyrwyr neu'r rhai sydd mewn cyflogaeth, y tybir hefyd bod eu cartrefu'n dwyn llai o risg, gall pobl sy'n cysgu allan ei chael yn anodd sicrhau llety.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy, ond nid yw pobl ag anghenion cymhleth wastad wedi gallu cael mynediad at dai cymdeithasol

3.12 Mae cael mynediad at dai cymdeithasol parhaol o unrhyw fath yn dod yn fwyfwy anodd, yn enwedig i bobl ddigartref a'r rhai sy'n byw ar y strydoedd. Mae tai cymdeithasol yn dod yn fwyfwy prin, yn bennaf oherwydd yr 'hawl i brynu'¹⁷. Er enghraifft, mae nifer y cartrefi rhent ym mis Mawrth 2019 yn dal i fod islaw'r lefelau 20 mlynedd yn ôl, tra bo poblogaeth Cymru yn yr un cyfnod wedi codi ychydig yn fwy na 7%¹⁸. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r cyflenwad o dai ac mae wedi pennu targed i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd rhwng 2016 a 2021, gyda 65% o'r rhain ar gyfer rhentu cymdeithasol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiddymu'r 'hawl i brynu' o fis Ionawr 2019 hefyd.

16 Defnyddir lwfans tai lleol i gyfrifo faint o fudd-dal tai neu gredyd cynhwysol y mae person yn ei gael wrth rentu gan landlord preifat. Mae'r cyfraddau'n wahanol gan ddiybnu ar leoliad a maint yr aelwyd. Os yw'r hawlydd dan 35 ac yn sengl heb unrhyw blant dibynnol, dim ond y gyfradd llety a rennir y mae ganddynt hawl iddi. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad dynt yn rhannu eu cartref gyda phobl eraill.

17 Roedd y cynllun Hawl i Brynu'n rhoi hawl gyfreithiol i denantiaid diogel cynghorau a rhai cymdeithasau tai brynu, am ddisgownt mawr, y tŷ yr oeddent yn byw ynddo. Arweiniodd y cynllun at ostyngiad yn nifer y tai cymdeithasol yn y DU, sydd wedi gostwng o bron i 6.5 miliwn o gartrefi ym 1979 i oddeutu 2 filiwn o gartrefi yn 2018.

18 StatsCymru, [Poblogaeth Aelwydydd Preifat yn ôl Awdurdod Lleol a'r Flwyddyn](#)

- 3.13 Er bod y ddau fesur yma'n helpu i wrth droi'r dirywiad mewn tai rhent cymdeithasol, mae cynyddu'r cyflenwad yn un elfen yn unig o'r modd y mae angen i landlordiaid tai cymdeithasol ymateb i her digartrefedd a chysgu allan. Yn bwysicach byth, mae angen i gynghorau a chymdeithasau tai fabwysiadu polisïau dyraniadau a rheoli tai sy'n rhoi cymorth llawn i bobl ag anghenion cymhleth gael mynediad at eu tai ac yna'u cynorthwyo i gynnal y llety. Mae llawer o landlordiaid yn parhau i gynorthwyo pobl i gadw to uwch eu pennau trwy eu helpu i reoli dyled, dodrefnu eu cartrefi a chynyddu eu hincwm i'r eithaf. Hefyd, mae landlordiaid cymdeithasol yn helpu cleientiaid i reoli atgyfeiriadau llys, cynnig cymorth ar gyfer tribiwnlysoedd a rhoi pobl mewn cysylltiad â gwasanaethau cynghori ariannol arbenigol a defnyddio taliadau caledi. Caiff rhai o'r gwasanaethau hyn eu hariannu dan y rhaglen Cefnogi Pobl sy'n helpu pobl agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl ac yn ategu'r gofal personol neu feddygol y maent yn ei gael.
- 3.14 Fodd bynnag, mae rhai landlordiaid tai cymdeithasol wedi defnyddio polisïau i atal pobl ag anghenion cymhleth rhag cael mynediad at eu llety. Mae'r rhain wedi cynnwys cynlluniau eithrio ac atal dros dro, cymalau ymddygiad annerbyniol i gyfyngu ar gymhwysra i wneud cais am lety, a rhestrï aros caeëdig nad ydynt yn caniatáu i bobl gofrestru a chael eu hystyried ar gyfer tai. Mae rhai landlordiaid hefyd wedi defnyddio 'mentrau gosod lleol' i ddiffinio pwy all a phwy na all wneud cais am dai mewn ardal ddiffiniedig, a nithio'r rhai ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol. Defnyddir mentrau o'r fath ar y cyfan i sicrhau'r rheolaeth orau ar y stoc dai trwy greu cymunedau cynaliadwy cytbwys i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ran eu natur, fodd bynnag, gallant hefyd gyfyngu ar fynediad at dai a chyfyngu ar gyfleoedd i grwpiau risg uchel megis pobl sy'n cysgu allan.
- 3.15 Gellir gweld canlyniadau'r camau gweithredu hyn mewn data ar dueddiadau ar gyfer gosodiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos bod gosodiadau parhaol a wneir i bobl ddigartref wedi gostwng yn y 10 mlynedd ddiwethaf o 4,317 yn 2008-09 i 3,722 yn 2018-19¹⁹. Er y gall rhan o hyn gael ei egluro gan y ffocws diwygiedig ar atal yn hytrach nag adweithio i ddigartrefedd, mae hefyd yn dangos yr her y mae pobl ag anghenion cymhleth yn ei hwynebu o ran sicrhau tai.

Mae cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a chydleoli gwasanaethau wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae partneriaid yn dal heb integreiddio gwasanaethau a'u gwneud yn fwy hyblyg i fynd i'r afael yn well â phroblem cysgu allan

- 3.16 Gan gydnabod heriau ymateb i bobl sy'n cysgu allan, canfuom rai enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd ac yn addasu systemau i fynd i'r afael ag anghenion aciwt iawn. Er enghraifft, mae Caerdydd wedi creu Tîm Amlddisgyblaethol, gan gydleoli tai, yr Heddlu, y gwasanaeth prawf, gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl, ac ystod o weithwyr iechyd a therapiwtig. Mae gan y tîm hefyd fynediad at wasanaethau rhagnodi cyflym (RAPS) i gynorthwyo'r cleientiaid hynny nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau confensiynol. Mae hyn yn galluogi cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector i greu'r ymateb cywir ar y cyd ac mae ymrwymiad amlwg rhwng partneriaid ynglŷn â'r angen i ddefnyddio dull 'gofal sy'n ystyriol o drawma' neu 'Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol'²⁰ o ymdrin â'r mater.
- 3.17 Er bod y dulliau hyn yn tyfu, maent yn dal yng nghyfnodau cynnar iawn eu datblygiad. Canfuom fod cydleoli'n aml yn deillio o ddulliau peilot neu fentrau ariannu byrdymor ac nad ydynt yn cael eu prif-frydio o ganlyniad. Fe wnaeth nifer o'r bobl y cyfwelom ni â hwy nodi hefyd, am nad yw cyrff iechyd yn draddodiadol wedi integreiddio'u hymatebion ochr yn ochr â sefydliadau tai, bod partneriaid yn y sector cyhoeddus wedi gorfod cyflogi eu nyrsys iechyd meddwl neu nyrsys camddefnyddio sylweddau eu hunain i gau'r bwlch hwn.
- 3.18 Mae'r model traddodiadol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n cysgu allan gyd-fynd â threfn gwasanaethau, ac mai ychydig o hyblygrwydd sydd mewn prosesau ymgeisio ac asesu. Gan mai'r disgwyliad yw y gall pobl sy'n cysgu allan weithio drwy'r system, maent yn aml yn cael eu heithrio o wasanaethau am nad ydynt yn gallu sicrhau neu gael mynediad at yr help y mae'i angen arnynt, neu fod y systemau a'r rheolau'n rhy anhyblyg i'w derbyn. Er enghraifft, gofyniad meddygon teulu bod pobl sy'n cysgu allan yn cofrestru gyda phractis cyn cael help, sy'n gallu bod yn her, a hwythau'n gwrthod darparu gwasanaeth oni bai eu bod wedi cofrestru. Yn yr un modd, ei gwneud yn ofynnol i bobl wneud apwyntiadau wythnosau ymlaen llaw sy'n gallu atal pobl ag anghenion cymhleth rhag ymgysylltu â gwasanaethau a'u defnyddio.

²⁰ Mae Gofal sy'n Ystyriol o Drawma (TIC) ac Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol (PIE) yn ddulliau cysylltiedig ac ategol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Nod y naill a'r llall yw gwella llesiant seicolegol ac emosïynol pobl sy'n cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus neu'n gweithio ynddynt.

- 3.19 O ganlyniad, nid oedd pobl sy'n cysgu allan yn ymgysylltu â meddygon teulu am bod gormod o fiwrocratiaeth, ac roeddent yn diweddu mewn gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys pan oedd eu problemau'n gwaethygu. Mae ymyrryd ar adeg gynnar mewn lleoliad gofal sylfaenol er budd pennaf y gwasanaethau lechyd, ond gall y dulliau anhyblyg achosi i bobl ddefnyddio triniaeth gofal eilaidd mwy dwys a drud. O ganlyniad, maent wedi bod yn galw'n draddodiadol ac yn anghymesur ar wasanaethau aciwt – damweiniau ac achosion brys, yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'r Heddlu, er enghraifft – am mai dyma'r rhai a oedd yn ymateb iddynt yn eu horiau o argyfwng.
- 3.20 Hefyd, fe wnaeth llawer y gwnaethom ni gyfwrdd â hwy nodi anawsterau hirdymor i bobl y mae arnynt angen gwasanaethau iechyd meddwl. Er mwyn cael y rhain mae'n aml yn ofynnol cael atgyfeiriad gan feddyg teulu at dîm lechyd Meddwl. Mae trothwyon gwasanaethau hefyd yn uchel iawn gan olygu bod rhaid i gyflwr meddyliol rhywun fod wedi dirywio'n sylweddol cyn y rhoddir cynhorthwy. Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl y cyfwelom ni â hwy bwysleisio ei bod hi bron yn amhosibl cadw pobl mewn ysbyty dan adran o'r Ddeddf lechyd Meddwl, a nododd nifer o gyfweleion nad oedd pobl sy'n agored iawn i niwed ac sy'n aml yn dioddef trawma yn cael eu helpu a'u bod yn cael eu gadael ar y stryd i ymdopi ar eu pennau eu hunain. Mae pobl â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd²¹ yn aml yn profi sefyllfa o 'osgoi cyfrifoldeb' o ran pwy ddylai ymdrin â'u hanghenion. Nododd sylwebwyr yn rheolaidd fod gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn gwrthod darparu gwasanaeth oni bai yr ymdriniwyd â'r broblem camddefnyddio sylweddau.

Nid oedd y system darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi'i bwriadu i ymateb i bobl â phroblemau cymhleth

- 3.21 Mae gormod o wasanaethau'n gweithredu dulliau safonedig a oedd yn methu ag ystyried pobl â bywydau anhrefnus. Roeddent yn gweithredu ar egwyddor blaenoriaethu anghenion aciwt a dogni gwasanaethau mewn system a oedd yn creu oedi trwy fwriad. Er bod hyn yn helpu cyrff cyhoeddus i reoli eu heriau ariannol, blaenoriaethu sut i ymateb i alw cynyddol, a'i fod yn gweithio i'r boblogaeth ehangach, nid yw'n ddigon sensitif na hyblyg i ymateb i bobl ag anghenion cymhleth. Oherwydd eu bywydau anhrefnus, mae pobl ag anghenion cymhleth yn ei chael yn anodd ymdopi â systemau a phrosesau anhyblyg. Roedd dulliau sy'n rhoi'r baich ar y defnyddiwr gwasanaethau i ddod o hyd i'w ffordd drwy system yn creu rhwystrau ac yn atal pobl rhag cael yr help yr oedd ei angen arnynt.

21 Ystyr cyd-ddigwydd (neu ddiagnosis deuol) yw lle mae rhywun yn camddefnyddio sylweddau ac yn dioddef o ran iechyd meddwl.

- 3.22 A, gan bod sefydliadau'n gweithio yn ôl rolau â diffiniadau cul, mae'n aml yn eu hatal rhag canolbwyntio ar weithio ar y cyd i fynd i'r afael â chymhlethdod cymdeithasol problemau drwg. O'n hadolygiad ni fe wnaethom adnabod nifer o nodweddion ar fodolau darparu gwasanaethau nad ydynt yn helpu i ddiwallu anghenion cymhleth. Nodweddir y systemau hyn yn fynych gan ddulliau sydd:
- a yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gofrestru ar gyfer gwasanaeth neu drefnu apwyntiad;
 - b yn gofyn am atgyfeiriadau gan gyrff cyhoeddus eraill cyn bod pobl yn cael mynediad at wasanaethau;
 - c darparu gwasanaethau o bell ac mewn ffyrdd sy'n atal defnydd megis y rhyngrwyd a thrwy ganolfannau cyswllt;
 - ch disgwyl i bobl gwblhau ceisiadau manwl;
 - d cynnal asesiadau cynhwysfawr o anghenion;
 - dd gweithredu ymarferion casglu gwybodaeth ar wahân yn hytrach nag ar y cyd;
 - e defnyddio rhestri aros i ddogni gwasanaethau;
 - f dilyn polisi o 'anfon i gefn y ciw' a/neu eithrio/atal pobl am fethu ag ymgysylltu, cynnal cyswllt neu oherwydd eu ymddygiad yn y gorffennol;
 - ff gweithredu yn ôl trothwyon gyda gwasanaethau'n cael eu darparu dim ond os cyrhaeddir y trothwy; a
 - g gwrthod cynorthwyo nes ymdrinnir â chyflyrau eraill.
- 3.23 Gan bod gan wahanol wasanaethau cyhoeddus wahanol ddulliau 'safonol', yn aml gall fod sawl enghraifft o 'dir diffaith' yn cael ei greu gyda ffiniau gwasanaethau'n anghyson a heb eu cydgysylltu. Yn rhy aml yn yr adolygiad hwn rydym wedi gweld asesiadau'n pennu nad oes gan bobl ddigon o angen i gael mynediad at wasanaethau allweddol, megis cymorth ar gyfer iechyd meddwl, ond gan farnu hefyd bod ganddynt angen rhy gymhleth i ddefnyddio gwasanaethau lefel-isel generig megis tai â chymorth. O ganlyniad, gan bod cyrff cyhoeddus yn methu â gwneud eu dulliau safonol yn fwy hyblyg, roedd pobl a oedd yn cysgu allan yn peidio â chael unrhyw help yn y diwedd ac yn cael eu gwthio, neu'n cerdded, i ffwrdd ac yn syrthio i mewn i'r twll du o ran gwasanaethau a oedd yn aml yn bodoli rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus.

Gall 'Tai yn Gyntaf' fynd i'r afael yn well ag anghenion pobl sy'n cysgu allan, ac mae'n dechrau cael ei gyflwyno ledled Cymru

- 3.24 Dull seiliedig ar dystiolaeth o gynorthwyo pobl ddigartref ag anghenion uchel a hanes o ddigartrefedd sydd wedi hen ymgaledu neu sy'n digwydd dro ar ôl tro i fyw yn eu cartrefi eu hunain yw Tai yn Gyntaf. Mae'r dull yn canolbwyntio ar ddarparu cartref annibynnol, sefydlog a rhoi cymorth personol dwys i helpu pobl ag anghenion lluosog a chymhleth i bontio o drawma i fywyd normal. O ganlyniad, nid oes unrhyw amodau yn gysylltiedig â 'pharodwydd ar gyfer tai' cyn rhoi cartref i rywun; yn hytrach, ystyrir bod tai diogel yn llwyfan sefydlog sy'n gallu bod yn sail i fynd i'r afael â materion eraill. Mae Tai yn Gyntaf yn fodel gwahanol am ei fod yn darparu tai 'yn gyntaf', fel mater o hawl, yn hytrach nag 'yn olaf' neu fel gwobr pan ystyrir bod rhywun yn barod i fyw'n annibynnol .
- 3.25 Ar hyn o bryd ceir darpariaeth 'Tai yn Gyntaf' yn Ynys Môn a Chaerdydd ac mae gwasanaethau'n cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill gan gynnwys Abertawe. Canfuom fod barn gymysg wrth ystyried a fydd 'Tai yn Gyntaf' yn dwyn deilliannau gwell i bobl sy'n cysgu allan. Er bod llawer yn cydnabod bod trefnu gwasanaethau cofleidiol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth mewn llety'n gadarnhaol, nododd rhai mai dim ond un datrysiad posibl ydoedd, nid yr unig opsiwn. Heb ymrwymiad gan sefydliadau cymorth ehangach i drefnu gwasanaethau cofleidiol ar gyfer pobl sydd wedi cysgu allan – iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau triniaeth ar gyfer caethiwed – mae'n annhebygol o wireddu'r uchelgeisiau sydd gan rai pobl a chyrrff ar gyfer 'Tai yn Gyntaf'.

**Mae arian yn cael
ei wastraffu am fod
cyrff cyhoeddus yn
adweithio i gysgu allan
yn hytrach na'i atal**

04

- 4.1 Mae ymateb yn fwy effeithiol i ddigartrefedd stryd yn dwyn budd ariannol amlwg: gall arbed arian. O'n hadolygiad canfuom mai prin y mai diffinio gwariant ar gysgu allan yn symud y tu hwnt i asesu costau tai, a'i bod yn anodd gwybod union gost ariannol adweithio i gysgu allan gan nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei choladu sy'n nodi holl amlen y gwariant gan wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o ddata gwael, ond hefyd am nad yw cyrff cyhoeddus yn cofnodi neu'n amcangyfrif cost adweithio i'r angen cymhleth hwn. Rydym yn cydnabod bod gostyngiadau i gyllidebau cyrff cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd ymateb i'r argyfwng cysgu allan. Ond mae'r gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus hefyd yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus weithio'n wahanol a sicrhau bod pob £1 a gaiff ei gwario'n cael effaith ac yn helpu pobl ag anghenion cymhleth.
- 4.2 I ddeall cost bosibl cysgu allan i gyrff cyhoeddus rydym wedi defnyddio Cyfrifydd Arbedion Teuluol (FSC) Llywodraeth Cymru i ddadansoddi'r effaith ariannol bosibl ehangach. Datblygwyd yr offeryn FSC²² gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, ac yn ein tyb ni dyma'r ffynhonnell wybodaeth orau sydd ar gael am gost cyflawni gwahanol weithgareddau ar draws gwasanaethau cyfiawnder troseddol, addysg, cyflogaeth, tai, iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.
- 4.3 Gan ddefnyddio detholiad o astudiaethau achos, rydym wedi nodi tâl am wahanol ymyriadau gan y sector cyhoeddus sydd, o'u hadio gyda'i gilydd, yn rhoi inni'r gost bosibl i bwrs y wlad wrth ymateb i – ond nid mynd i'r afael ag – un cyfnod argyfyngus o gysgu allan. I grynhoi, mae ein hymchwil yn dangos bod y gost i bwrs y wlad yn amrywio o £26,626 i £72,711 am bob digwyddiad, ac mai £53,082 yw cost gyfartalog pob achos unigol – **Arddangosyn 3**.

22 Daw'r wybodaeth ar gyfer costiau yn yr offeryn FSC o ystod o ffynonellau ac mae'r rhain yn amrywio o ran dyddiad cyhoeddi. Serch hynny, yr FSC yw'r ffynhonnell ddata orau sydd ar gael o hyd ar gyfer Cymru'n benodol sy'n ei gwneud yn bosibl asesu cost bosibl ymyriadau gan wasanaethau cyhoeddus i ymdrin â materion a heriau craidd cysgu allan. Rydym wedi cynyddu'r costau sylfaenol i gyfateb i fis Medi 2019.

Arddangosyn 3: Darluniad Archwilio Cymru o gost bosibl adweithio i achosion unigol o gysgu allan i gyrff cyhoeddus

Gall pob cyfnod o gysgu allan fod yn costio rhwng £26,500 a £73,000

Achos A	<ul style="list-style-type: none"> rhoddodd y gorau i'w swydd oherwydd problemau camddefnyddio sylweddau a dychwelodd i gartref y teulu yn fuan wedi hyn, fe'i gwnaed yn ddigartref a diweddodd ar y strydoedd yn dilyn sawl digwyddiad pan alwyd yr heddlu allan, arestiadau ac ymddangos yn y Llys Ynadon, rhagnodwyd triniaeth ddwys iddo ar gyfer camddefnyddio sylweddau 	<p>Gwasanaethau Cyhoeddus a ymatebodd i'r cyfnod hwn o gysgu allan...</p> <ul style="list-style-type: none"> Heddlu Llysoedd Tai Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Cymdeithasol 	<p>Cost bosibl y cyfnod hwn o gysgu allan</p> <p>£26,626</p>
Achos B	<ul style="list-style-type: none"> treuliodd flynyddoedd lawer yn cysgu allan ac yn yfed yn drwm, gan alw'n fynych ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys am gymorth cafodd sawl arhosiad byr yn yr ysbyty cyflawnodd nifer o fân droseddau a throeddau mwy difrifol hefyd gyda'r Heddlu'n dod allan ar sawl achlysur ac yn ei harestio nifer o weithiau yn y diwedd cafodd ei dedfrydu i 4 mis o garchar 	<p>Gwasanaethau Cyhoeddus a ymatebodd i'r cyfnod hwn o gysgu allan...</p> <ul style="list-style-type: none"> Uned Damweiniau ac Achosion Brys yr Ysbyty Heddlu Llys Prawf Tai Carchardai EM Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Cymdeithasol 	<p>Cost bosibl y cyfnod hwn o gysgu allan</p> <p>£43,050</p>


Achos C	<ul style="list-style-type: none"> • datblygodd broblem cyffuriau a phrofodd ddychrynu a thrais gan werthwyr cyffuriau • diweddodd ar y strydoedd, gydag eraill yn cymryd mantais ohono'n fynych ond cyflawnodd nifer o droseddau hefyd • afodd ei arestio sawl gwaith ac fe'i dedfrydwyd i dros flwyddyn yn y carchar 	<p>Gwasanaethau Cyhoeddus a ymatebodd i'r cyfnod hwn o gysgu allan...</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal iechyd • Heddlu • Llysoedd • Carchardai EM • Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Cymdeithasol 	<p>Cost bosibl y cyfnod hwn o gysgu allan</p> <p>£69,940</p>
Achos D	<ul style="list-style-type: none"> • treuliodd fisoedd lawer yn yr ysbyty, yn y carchar, ac amser ar y strydoedd oherwydd ei alcoholiaeth ormodol • yn ystod y cyfnod hwn, ymwelodd â'r uned damweiniau ac achosion brys yn fynych a bu yn yr ysbyty am fwy na 6 mis • fe'i harestiwyd hefyd ar 5 achlysur gwahanol ac fe'i dedfrydwyd i garchar gan Lys y Goron 	<p>Gwasanaethau Cyhoeddus a ymatebodd i'r cyfnod hwn o gysgu allan...</p> <ul style="list-style-type: none"> • Uned Damweiniau ac Achosion Brys yr Ysbyty • Ymddiriedolaeth Ambiwllans • Meddyg Teulu • Heddlu • Llysoedd • Carchardai EM • Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Cymdeithasol 	<p>Cost bosibl y cyfnod hwn o gysgu allan</p> <p>£72,711</p>

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg Pobl sy'n Cysgu Allan, Ionawr 2020 a data'r offeryn FSC, Llywodraeth Cymru (gyda data costau wedi'i gynyddu i gyfateb i fis Medi 2019)

4.4 Gan ddefnyddio ein dadansoddiad a grynhoir yn **Arddangosyn 4**, rydym hefyd wedi cynyddu graddfa'r gweithgarwch i ganfod y costau posibl ar lefel Cymru gyfan. Ar gyfer yr ymarfer hwn rydym wedi tynnu ar wybodaeth a goladwyd gan The Wallich am nifer y bobl sy'n cysgu allan a nodwyd mewn un flwyddyn galendr (nododd The Wallich fod 2,878 o bobl yn cysgu allan yn 2017-18 ledled Cymru gyfan). Rydym ni o'r farn mai'r data hwn yw'r dystiolaeth genedlaethol orau sydd ar gael ar nifer yr achosion o gysgu allan yng Nghymru. Yn **Arddangosyn 4** isod rydym yn dangos bod cyfanswm y 'gost' flynyddol i'r sector cyhoeddus yn ôl pob tebyg am adweithio i gysgu allan, ond nid ei hatal, yn amrywio o £77 miliwn i £209 miliwn.

Arddangosyn 4 – cost flynyddol bosibl i 'bwrs y wlad' am adweithio i gysgu allan

Gallai'r gost bosibl i gyrff cyhoeddus am adweithio i gysgu allan, ond nid mynd i'r afael â hi, fod yn £100oedd o filiynau'r flwyddyn ledled Cymru



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

4.5 Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, eu dull fu ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd nid ar y cyd. Er eu bod yn datrys problem uniongyrchol, maent yn cynrychioli defnydd aneffeithlon ac aneffeithiol o arian cyhoeddus am nad yw eu hymateb yn arwain at newid sylfaenol i'r materion sylfaenol a achosodd i rywun gysgu allan, ac mae cyfnodau pellach o gysgu allan yn cael eu hailadrodd yn fynych.



**Mae COVID-19 yn rhoi
cyfle i gyrff cyhoeddus
newid yn sylfaenol
y modd y maent yn
cydweithio i fynd i'r
afael â chysgu allan**

05

- 5.1 Yn wythnosau cynnar y pandemig, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau argyfwng a oedd wedi'u bwriadu i sicrhau bod pobl sy'n cysgu allan, neu'n wynebu risg o gysgu allan, a'r rhai mewn llety dros dro annigonol yn cael y cymorth a'r adnoddau yr oedd arnynt eu hangen i'w hamddiffyn eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno canllawiau i gynorthwyo'r rhai a oedd yn gweithio yn y sector llochesi argyfwng, hostelau a chamddefnyddio sylweddau; dyraniad cychwynnol o hyd at £10 miliwn i awdurdodau lleol i'w galluogi i symud pobl a oedd yn cysgu allan oddi ar y strydoedd ac i mewn i lety gwestai a motelau. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi awdurdodau lleol i helpu dros 800 o bobl i gael eu cartrefu ers dechrau'r cyfyngiadau symud.
- 5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi dyhead i adeiladu ar ei hymateb cychwynnol llwyddiannus i'r pandemig a newid sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymdrin â digartrefedd yn y tymor hir. Ar 28 Mai cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gyllid newydd o hyd at £20 miliwn i helpu i sicrhau na fyddai unrhyw un a leolwyd mewn lloches argyfwng yn ystod argyfwng y coronafeirws yn gorfod dychwelyd i'r strydoedd na llety anaddas²³. Yn awr mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau i drawsnewid gwasanaethau a'r arlwy o ran llety ledled Cymru, i helpu'r rhai sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd i symud ymlaen i gartref mwy hirdymor.
- 5.3 O'n hadolygiad ni rydym wedi canfod, er mwyn mynd i'r afael â phroblem cysgu allan, bod angen meddwl yn holistaidd nid yn llinol, a chynnwys a chael ymrwymiad gan yr ystod lawn o gyrff cyhoeddus i gydweithio i ddarparu ymateb integredig. Rydym ni'n credu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) mewn sefyllfa dda i lywio uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael yn sylfaenol â phroblem cysgu allan. Mae ganddynt yr aelodaeth gywir ac maent yn cynnwys uwch benderfynwyr o gynghorau, byrddau iechyd lleol, gwasanaethau brys, cyrff y trydydd sector a Llywodraeth Cymru. Gall BGCau ddarparu'r arweinyddiaeth y mae ei hangen i drechu'r broblem gymhleth hon trwy flaenoriaethu camau gweithredu a gwariant a hybu gwaith cydgysylltiedig ac integredig i drechu'r 'problemau drwg' sy'n croesi ffiniau gwasanaethau cyhoeddus. O'i fynegi'n syml, mae'r argyfwng COVID-19 wedi creu cyfle i gyrff cyhoeddus yng Nghymru newid sut y maent yn ymateb i bobl yn cysgu allan ac yn helpu'r bobl hynny.
- 5.4 Yn seiliedig ar ein gwaith ymchwil a gwerthuso, rydym ni'n credu bod yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol ac yn gweithredu yn unol â rhai egwyddorion allweddol. Nodir y rhain yn **Arddangosyn 5**.

23 <https://media.service.gov.wales/news/llywodraeth-cymru-yn-cyhoeddi-cronfa-newydd-gwerth-gbp-20m-i-drawsnewid-gwasanaethau-digartrefedd-a-sicrhau-nad-oes-angen-i-unrhyw-un-gysgu-allan>

Arddangosyn 5 – nodweddion gwasanaethau cyhoeddus sydd mewn sefyllfa well i ymateb i bobl ag anghenion cymhleth

Hygyrch ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn

- yn cydnabod bod pobl yn dioddef trawma.
 - yn canolbwyntio ar helpu pobl ar unwaith yn y pwynt cyswllt cyntaf.
 - ddim yn gweithredu apwyntiadau.
 - yn cynnig mynediad uniongyrchol agored at wasanaethau.
 - oriau gweithredu hyblyg.
 - wedi'u teilwra i ymdrin â phobl mewn argyfwng.
 - yn canolbwyntio ar wrando, nid dweud.
 - yn creu ymatebion pwrpasol sydd wedi'u teilwra i gryfderau ac anghenion unigolyn.
-

Prosesau wedi'u symleiddio

- systemau ymgeisio minimol ac wedi'u symleiddio.
 - prosesau asesu cyflym ac ymatebol.
 - osgoi rhestri aros a dogni gwasanaethau.
 - osgoi dewisiadau polisi sy'n cosbi pobl – e.e. cynlluniau gosodiadau lleol, eithriadau ac ataliadau.
 - prosesau rhannu data a chyfnewid gwybodaeth effeithiol ac effeithlon sy'n cwmpasu materion craidd fel asesiadau risg, asesu anghenion ac ymddygiad heriol.
-

Wedi'u cydleoli a'u hintegreiddio

- gwasanaethau wedi'u cydleoli'n gweithredu fel tîm amlddisgyblaethol.
 - dull seiliedig ar system 'o ddechrau'r broses i'w diwedd' sy'n osgoi sefyllfa lle mae sefydliadau'n ymdrin â materion ar wahân i'w gilydd.
 - un broses benderfynu ymatebol sy'n croesi ffiniau sefydliadau.
 - gwasanaethau arbenigol wedi'u comisiynu ar y cyd.
-

Ethos o rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd

- sefydliadau'n gweithio er lle pawb.
 - mae pŵer wedi'i rannu'n gyfartal gyda chydgyhyrchu go iawn.
 - deall a gwerthfawrogi anghenion a safbwynt eraill.
 - bod yn barod i addasu o ran 'sut' a pheidio â chanolbwyntio'n ddiysgog ar 'un ffordd yn unig'.
 - gwneud dulliau'n hyblyg a derbyn 'nad oes un ateb i bawb'.
 - sefydliadau yn peidio â gwarchod eu buddiannau eu hunain ar draul partneriaid yn y sector cyhoeddus.
 - goddef methiant ar ran defnyddwyr gwasanaethau a pheidio â'u cosbi pan fo hynny'n digwydd.
 - derbyn y bydd ymatebion gan wasanaethau cyhoeddus yn gofyn llawer o ailddechrau a dechrau o'r dechrau gydag unigolion i dorri eu cylch o angen cymhleth.
 - creu fframwaith rhannu atebolrwydd y mae'r holl gyrff cyhoeddus yn ymrwmo iddo ac yn gweithio oddi mewn iddo.
 - Osgoi hunan-warchod a hunan-hyrwyddo
-

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 5.5 Mae ymateb mwy effeithiol ac integredig i gysgu allan yn bosibl os oes ewylllys i newid a derbyniad bod cyflawni deilliannau gwell yn golygu bod rhaid ildio peth rheolaeth a gweithio er lles pawb. Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos bod gyrff cyhoeddus yn gallu ac wedi newid eu dulliau a helpu ac amddiffyn pobl sy'n agored iawn i niwed.
- 5.6 Ar hyn o bryd ceir ymrwymiad gan gyrff cyhoeddus i wneud y trawsnewid y mae ei angen. Fel y gwnaethom ei nodi uchod, mae hyn yn newid sylweddol o'r ymateb cychwynnol i'r ddyletswydd yn Adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gydweithio yn yr oes cyn COVID-19. Er bod hyn yn gweithio ar union adeg yr argyfwng, mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu hyn yn gyson a chryfhau'r ddyletswydd hon a'r fframwaith polisi ar gyfer gwaharddiadau ac ataliadau os nad yw pobl ag anghenion cymhleth yn cael y tai a'r cymorth y mae'u hangen arnynt.

- 5.7 Mae hyn yn her ond, fel y mae ein hymchwil a'n dadansoddiad ni'n ei ddangos, mae manteision yr ymateb holistaidd hwn sy'n seiliedig ar y system gyfan wrth ymateb i COVID-19 yn niferus:
- a mae'n rhoi mwy o sefydlogrwydd i bobl â bywydau cymhleth;
 - b mae'n dwyn deilliannau gwell i bobl ag anghenion cymhleth;
 - c mae'n helpu pobl i integreiddio'n ôl i mewn i gymdeithas brif ffrwd;
 - ch mae'n lleihau'r galw ar wasanaethau argyfwng ac aciwt;
 - d mae'n arbed arian; ac
 - dd mae'n achub bywydau.



Atodiadau

- 1 Methodoleg yr archwiliad
- 2 Cefnogi gwelliant – offeryn hunan-fyfyrio ar gyfer asesu pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth

1 Methodoleg yr archwiliad

Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- polisi, canllawiau statudol a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru;
- tystiolaeth a gyflwynwyd i amryw bwyllgorau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Cynlluniau Llesiant pob un o'r 19 BGC;
- strategaethau a chynlluniau gweithredu, polisiâu ac adroddiadau digartrefedd pob un o'r 22 o gynghorau;
- data a gyhoeddwyd gan StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac
- ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan lywodraethau, cynghorau, CIPFA a chyrrff ymchwil.

Arolwg o bobl sydd wedi cysgu allan

Fe gwblhaom ni arolwg manwl gyda 30 o bobl sydd wedi cysgu allan.

Modelu data

Fe ddefnyddiom ni Gyfrifydd Arbedion Teuluol Llywodraeth Cymru i fodelu a chanfod faint y mae cyrrff cyhoeddus yng Nghymru'n ei wario ar adweithio i gysgu allan.

Ymweliadau â gwasanaethau

Fe ymwelom ni ag ystod o dai â chymorth, hostelau, Canolfan Huggard, fe gyfranogon ni mewn teithiau danfon brechwast ac fe ymwelom ni â mathau eraill o wasanaethau tai dros dro ac argyfwng ledled Cymru a Lloegr.

Gwaith maes

Fe gwblhaom ni ystod o gyfweiliadau cenedlaethol a lleol â staff awdurdodau lleol ac aelodau etholedig, yr Heddlu, cyrrff iechyd, y Gwasanaeth Prawf, asiantaethau'r trydydd sector, cymdeithasau tai a chyrrff cynrychiolaidd yng Nghaerdydd, Gwynedd, Abertawe a Wrecsam. Fe ymwelom ni hefyd â gwasanaethau ym Mryste a Manceinion.

2 Cefnogi gwelliant – offeryn hunan-fyfyrio ar gyfer asesu pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn ynd i’r afael ag anghenion cymhleth

Mae **Argymhelliad 2** yn yr adroddiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio’r offeryn hunan-asesu hwn i adnabod eu cryfderau a gwendidau o ran sut y maent yn mynd i’r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd. Dylid defnyddio’r hunanasesiad hwn i farnu pa mor dda y mae partneriaid yn gweithio a chanfod ble y mae angen newid. Rydym yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio’r offeryn hwn i werthuso’u perfformiad ar hyn o bryd a nodi ble y mae angen iddynt wella.

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o’r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydyn ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
--------------	---	---	--

Creu gweledigaeth gyffredin a deilliannau darparu ar y cyd

Rydym wedi adnabod ein sefydliadau partner allweddol y mae angen eu cynnwys yn y gwaith o fynd i’r afael â’r angen cymhleth			
Mae ein holl bartneriaid allweddol wedi ymrwymo i weithio gyda ni a’i gilydd i fynd i’r afael â’r angen cymhleth			
Mae ein holl bartneriaid yn derbyn ac yn cytuno bod mynd i’r afael â’r angen cymhleth yn fusnes i bawb			
Rydym wedi gweithio gyda’n partneriaid i lunio diagnosis o’r sefyllfa ‘fel y mae’ ac wedi adnabod yr hyn y mae angen inni ei newid i fynd i’r afael yn well â’r angen cymhleth			

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydyn ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i gytuno ar y deilliannau yr ydym yn dymuno'u cyflawni ar y cyd			
Rydym wedi cytuno ar gynllun ar y cyd ar gyfer cyflawni'r deilliannau a gytunwyd gennym			
Mae'r berthynas rhwng yr holl bartneriaid yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr			

Creu ethos o rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd

Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno ar y cyd y byddant yn gweithio gyda'i gilydd er lles pawb			
Mae'r holl bartneriaid yn deall ac yn gwerthfawrogi anghenion a safbwyntiau ei gilydd			
Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno i wneud eu dull safonol yn hyblyg i gyrraedd y nod ehangach ar y cyd, sef mynd i'r afael â'r angen cymhleth			
Mae'r hol bartneriaid yn derbyn bod rhaid iddynt daro cydbwysedd rhwng eu buddiannau hwy eu hunain a'u cyfraniad er lles pawb			
Rydym wedi mynd ati ar y cyd i greu fframwaith rhannu atebolrwydd i lywodraethu a chraffu ar ein penderfyniadau wrth fynd i'r afael â'r angen cymhleth			

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydyn ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
Mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i weithio o fewn y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd hwn a grëwyd ar y cyd			
Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno na fyddant yn gwarchod sefyllfa eu sefydliadau eu hunain ar draul partneriaid eraill i helpu i fynd i'r afael â'r angen cymhleth			
Darparu adnoddau ar gyfer y newidiadau y mae eu hangen			
Mae'r holl bartneriaid wedi ystyried ar y cyd a oes angen cyllideb gyfunol			
Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno ar y cyd ar gwmpas y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb gyfunol			
Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno sut y bydd y gyllideb gyfunol yn cael ei rheoli			
Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno ar nodau ac amcanion ar gyfer y gyllideb gyfunol			
Mae'r holl bartneriaid wedi cytuno ar gost y gwasanaeth diffiniedig a'u cyfraniad at y gyllideb gyfunol (ariannol, adnoddau staff ac asedau)			
Mae'r holl bartneriaid wedi datblygu a chytuno ar yr achos busnes ar gyfer cymeradwyo'r gyllideb gyfunol			

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydyn ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
<p>Craffwyd ar yr achos busnes ac fe'i cymeradwywyd dan fframwaith llywodraethu ac atebolwydd pob sefydliad</p>			
<p>Dylunio a darparu gwasanaeth hyblyg, hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</p>			
<p>Rydym wastad yn helpu pobl ag anghenion cymhleth pan ydynt yn cysylltu â ni gyntaf ac ni waeth â pha sefydliad y maent yn cysylltu</p>			
<p>Rydym wastad yn sicrhau bod rhywun ag anghenion cymhleth yn gallu siarad yn uniongyrchol gyda rhywun pan fo arnynt eisiau neu angen gwneud</p>			
<p>Rydym yn derbyn y gall gymryd nifer o ymgeisiau i ymgysylltu'n effeithiol â rhywun ag anghenion cymhleth a byddwn yn ymyrryd yn rhagweithiol mor aml ag y mae angen i helpu rhywun</p>			
<p>Mae ein gwasanaeth ar y cyd ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth yn gweithredu'n hyblyg gan gynnig ystod o ffyrdd i gysylltu (e.e. yn gynnar yn y bore ac yn hwyr gyda'r nos, gweithio ar benwythnosau a.y.b.)</p>			

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydym ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
Mae ein gwasanaeth ar y cyd ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth yn ymgysylltu â phobl pan ydynt hwy yno ac yn y lle y maent hwy ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod atom ni ar sail apwyntiadau penodedig			
Rydym wastad yn gwrandao ar bobl ag anghenion cymhleth i sicrhau ein bod yn deall eu sefyllfa			
Rydym wastad yn creu ymatebion pwrpasol sydd wedi'u teilwra i gryfderau a gofynion unigolyn ag anghenion cymhleth			

Integreiddio a symleiddio llwybrau a phrosesau

Mae gennym gymhwysiad ar y cyd sy'n cofnodi gwybodaeth unwaith mewn ffordd wedi'i symleiddio, gan ofyn dim ond y cwestiynau y mae arnom ni a'n partneriaid angen gwybodaeth amdanynt			
Mae gennym un asesiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o anghenion, cryfderau a risgiau iddynt hwy eu hunain/i eraill y mae'r holl bartneriaid yn ei ddefnyddio			
Mae gennym broses asesu sydd wedi'i symleiddio ac sy'n ymatebol sy'n galluogi'r holl bartneriaid i asesu a phenderfynu ar geisiadau'n gyflym – e.e. o fewn oriau nid diwrnodau			

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydym ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
Rydym yn osgoi rhestri aros fel ymateb safonol a lle bynnag y bo'n bosibl wrth helpu pobl ag anghenion cymhleth			
Mae gennym broses asesu risg ar y cyd a ddefnyddir gan yr holl bartneriaid			
Mae gennym brotocol rhannu data y mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo iddo			
Mae'r protocol rhannu data'n gweithio'n effeithiol, ac mae'r holl bartneriaid yn rhannu gwybodaeth briodol a pherthnasol gyda'i gilydd – e.e. casgliadau asesiadau risg.			
Rydym wedi creu un system a llwybr 'o ddechrau'r broses i'w diwedd' sy'n osgoi sefyllfa lle mae sefydliadau'n ymdrin â phobl ag anghenion cymhleth ar wahân			
Mae'r holl bartneriaid yn goddef methiant ar ran defnyddwyr gwasanaethau ac nid ydynt yn eu cosbi pan fyddant yn ei chael yn anodd ymdopi neu'n dangos arwyddion eu bod yn methu ag ymdopi			
Rydym ni a'n partneriaid yn osgoi dewisiadau polisi sy'n cosbi pobl ag anghenion cymhleth pan ydynt yn methu ag ymdopi – e.e. cosbi am ymddygiad yn y gorffennol, sefydlu cyfyngiadau ar fynediad at wasanaethau megis cynlluniau gosodiadau lleol, eithriadau neu ataliadau			

Dangosir gan	Rydym yn gwneud hyn ac nid oes angen i ni wella ein dull o gwbl	Rydym yn gwneud hyn beth o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull	Dydyn ni ddim yn dda am wneud hyn ac mae angen i ni wella ein dull
Cydleoli gwasanaethau ac integreiddio'r drefn o'u rheoli			
Rydym wedi creu tîm amlddisgyblaethol gan gydleoli ac integreiddio gwasanaethau gyda phartneriaid			
Mae gennym un strwythur rheoli integredig sy'n cwmpasu gwaith yr holl bartneriaid yn y tîm amlddisgyblaethol			
Rydym wedi creu un broses benderfynu sy'n croesi ffiniau sefydliadau			
Rydym yn mynd ati ar y cyd i gomisiynu gwasanaethau arbenigol i gefnogi ein gwaith o ran mynd i'r afael ag anghenion cymhleth gyda'r holl bartneriaid			
Gwerthuso ein gwaith a chyflawni ein deilliannau			
Rydym yn gwerthuso'n rheolaidd sut yr ydym yn cyflawni ar y cyd yn erbyn y deilliannau a bennwyd gennym			
Rydym yn cymryd camau cywirol ar y cyd o ganlyniad i'n gwerthusiad			
Rydym yn agored i her a phrosesau craffu i wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth			



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru